**Teitl y Swydd: Swyddog Cynghrair Henoed Cymru**
**Categori'r Swydd: Rhan amser 21 awr**
**Lleoliad: Caerdydd / Hybrid**
**Cyflog: £31,050 Pro Rata**
**Math o gytundeb: 31/03/27**

## Pwrpas y swydd

Hyrwyddo a mabwysiadu cydweithio a phartneriaeth rhwng aelodau Cynghrair Henoed Cymru a sefydliadau a chyrff perthnasol eraill er budd pobl hŷn yng Nghymru.

## Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwch chi'n:

1. Sicrhau bod Cynghrair Henoed Cymru a'i aelodau'n medru dylanwadu ar flaenoriaethau strategol a pholisïau sy'n effeithio ar bobl hŷn drwy gynnal dulliau cyfathrebu effeithiol ac mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol.
2. Hyrwyddo cyd-weithio fel partneriaeth ymhlith aelodau Cynghrair Henoed Cymru a sefydliadau a chyrff eraill drwy gynnal dulliau rhwydweithio effeithiol a drwy rannu gwybodaeth.
3. Cyd-drefnu a rheoli casgliad o wybodaeth er mwyn cefnogi datblygu polisïau ac ymgyrchoedd. Dylid gwneud hyn drwy gynnal grwpiau ffocws, cyfweliadau unigol, arolygon ac unrhyw ddulliau addas eraill, mewn partneriaeth gydag aelodau'r Gynghrair a sefydliadau eraill pan fydd angen.
4. Cynhyrchu adroddiadau neu ddulliau cyfathrebu eraill, gan ddefnyddio'r data a gasglwyd gan y tîm Ymgysylltu, er gwybodaeth a defnydd aelodau Cynghrair Henoed Cymru, cynrychiolwyr etholedig, cyrff llywodraethol (lleol a chenedlaethol), asiantaethau addas eraill a'r boblogaeth ehangach.
5. Trefnu a rheoli cyfarfodydd a digwyddiadau Cynghrair Henoed Cymru.
6. Sicrhau bod gwefan Cynghrair Henoed Cymru'n cael ei ddiweddaru, a sicrhau bod y Gynghrair yn cael ei gynrychioli ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Beth amdanoch chi?**

**Fel rhan o'ch cais, a wnewch chi gynnwys llythyr eglurhaol sy'n egluro sut rydych chi'n ateb y gofynion ym manyleb y person. Ni fyddwn ni'n ystyried ceisiadau heb lythyr eglurhaol.**

## Beth rydyn ni'n ei gynnig i chi:

- Gwyliau - 27 diwrnod yn cynnwys 24 diwrnod o ddewis a 3 diwrnod i'w defnyddio rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd - gan gynnwys dwyn ymlaen
- Cynllun Gweithio Oriau Hyblyg
- Pensiwn cyflogwr
- Yswiriant bywyd hael hyd at 4 gwaith eich cyflog blynyddol
- Cynllun gofal iechyd sy'n talu arian yn ôl

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Age Cymru yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac rydyn ni'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys ac addas, ni waeth beth yw eu hoedran, rhyw, hil, anabledd,

cyfeiriadedd rhywiol, statws ailbennu rhywedd, crefydd neu gredo, statws priodasol/partneriaeth sifil, os ydynt yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau ar gyfer gweithio'n hyblyg.

Mae Age Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu oedolion sydd yn agored i niwed, a phlant, rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Rydyn ni'n disgwyl i bawb sydd yn gweithio i ni rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydyn ni'n eich annog i ymgeisio'n gynnar oherwydd y byddwn yn cadw llygad ar geisiadau drwy gydol y cyfnod hysbysebu, ac mae gennym hawl i gau'r hysbyseb ar unrhyw bryd.

**Hoffai Age Cymru ofyn i asiantaethau recriwtio a gwerthwyr yn y cyfryngau beidio â chysylltu. Dydyn ni ddim yn derbyn CVs ar hap gan asiantaethau recriwtio nac yn derbyn y ffïoedd sydd yn gysylltiedig â nhw.**

**I wneud cais:**

Anfonwch eich CV a'ch llythyr eglurhaol at hr@agecymru.org.uk

## Swydd Ddisgrifiad

*Teitl y Swydd:* *Swyddog Cynghrair Henoed Cymru*

**Lleoliad:** Caerdydd /Hybrid

**Statws Amodol y Rôl:** 21 awr yr wythnos

**Teitl Swydd y Rheolwr Llinell:** Pennaeth Dylanwadu

**Pwrpas y Swydd**

Hyrwyddo a meithrin cydweithio a phartneriaeth rhwng aelodau Cynghrair Henoed Cymru a sefydliadau a chyrff perthnasol eraill er budd pobl hŷn yng Nghymru.

**Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwch chi'n:**

7. Sicrhau bod Cynghrair Henoed Cymru a'i aelodau'n medru dylanwadu ar flaenoriaethau strategol a pholisïau sy'n effeithio ar bobl hŷn drwy gynnal dulliau cyfathrebu effeithiol ac mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol.
8. Hyrwyddo cyd-weithio fel partneriaeth ymhlith aelodau Cynghrair Henoed Cymru a sefydliadau a chyrff eraill drwy gynnal dulliau rhwydweithio effeithiol a drwy rannu gwybodaeth.

9. Cyd-drefnu a rheoli casgliad o wybodaeth er mwyn cefnogi datblygu polisïau ac ymgyrchoedd. Dylid gwneud hyn drwy gynnal grwpiau ffocws, cyfweliadau unigol, arolygon ac unrhyw ddulliau addas eraill, mewn partneriaeth gydag aelodau'r Gynghrair a sefydliadau eraill pan fydd angen.
10. Cynhyrchu adroddiadau neu ddulliau cyfathrebu eraill, gan ddefnyddio'r data a gasglwyd gan y tîm Ymgysylltu, er gwybodaeth a defnydd aelodau Cynghrair Henoed Cymru, cynrychiolwyr etholedig, cyrff llywodraethol (lleol a chenedlaethol), asiantaethau addas eraill a'r boblogaeth ehangach.
11. Trefnu a rheoli cyfarfodydd a digwyddiadau Cynghrair Henoed Cymru.
12. Sicrhau bod gwefan Cynghrair Henoed Cymru'n cael ei ddiweddaru, a sicrhau bod y Gynghrair yn cael ei gynrychioli ar y cyfryngau cymdeithasol.

| **Manyleb y Person:** | |
|---|---|
| Profiad | Gallwch chi ddangos bod gennych chi brofiad o:<br>• Weithio mewn rôl sy'n dibynnu ar weithio mewn partneriaeth, polisïau neu ymgyrchoedd.<br>• Casglu data cychwynnol ac eilaidd o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau ac arbenigwyr, ac arwain, rheoli a chefnogi eraill yn y gwaith hwn.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill yn cynnwys sefydliadau statudol a gwirfoddol<br>• Trefnu a chefnogi cyfarfodydd a chynadleddau mewnol ac allanol a darparu cefnogaeth weinyddol cynhwysol. |
| Gwybodaeth | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisïau Cymraeg a gwleidyddiaeth yng Nghymru.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o strategaeth a pholisïau sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. |
| Sgiliau | • Y gallu i ddylunio a gweithredu'r broses o gasglu data cychwynnol ac eilaidd.<br>• Y gallu i arwain, rheoli a chefnogi pobl eraill wrth gasglu data cychwynnol ac eilaidd.<br>• Dull trefnus o weithio a'r gallu i weithio ar sawl darn o waith, blaenoriaethu a dosbarthu gwaith yn addas.<br>• Y gallu i gynhyrchu adroddiadau a deunydd eraill cynhwysfawr sy'n cwmpasu darganfyddiadau'r gwaith casglu data cychwynnol ac eilaidd ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.<br>• Sgiliau cyfathrebu gwych ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Y gallu i feddwl yn greadigol a dangos ffordd wreiddiol o feddwl. |

| | |
|---|---|
| | • Ymrwymiad i, a dealltwriaeth o bwysigrwydd ymgynghori a chyd-weithio gyda rhanddeiliaid allweddol.<br>• Y gallu i rwydweithio a sefydlu perthnasau gyda phobl ar bob lefel.<br>• Dibynadwy ac yn barod i dderbyn cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau pan fydd hynny'n addas. |
| Cymwysterau | Gradd neu gymhwyster proffesiynol neu brofiad yn y maes. |
| Amgylchiadau ychwanegol: | Bydd angen i ddeiliad y rôl hon ddarparu car ar adegau, er mwyn teithio drwy gydol Cymru ac i fannau eraill yn y DU yn achlysurol, a gweithio rhai oriau anghymdeithasol. Bydd y gofynion hyn yn cael eu trefnu ymlaen llaw. |

**Nodiadau:**

- Nid yw hwn yn ddisgrifiad llawn o'r rôl, ond dyma yw pwrpas, cyfrifoldebau a hyd a lled sylfaenol y rôl. Felly, nid yw'r swydd ddisgrifiad yn disgrifio unrhyw ddeiliad unigol.
- Ynghyd a chynnwys y swydd ddisgrifiad, mae disgwyl i weithwyr gwblhau unrhyw dasgau rhesymol eraill sy'n cael eu gosod gan eu rheolwr llinell.